Taflen Ffeithiau 10: Bod yn Gyflogwr Da

Mae Taliadau Uniongyrchol yn rhoi cyfle i chi dderbyn cefnogaeth sy'n cyd-fynd â'r ffordd y mae arnoch chi eisiau byw eich bywyd. Os ydych chi'n bwriadu cyflogi staff eich hunan, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Dyma ychydig o'r gofynion:

- Mae'n rhaid i chi ddarparu contract cyflogaeth ysgrifenedig i'ch Cymhorthydd Personol sy'n diffinio'r telerau ac amodau cyflogaeth. Mae Cyngor Sir y Fflint yn argymell eich bod yn ceisio cyngor i wneud hyn. Mae'r cyngor hwn ar gael i chi, felly cysylltwch â ni.
- Mae'n rhaid i chi gofrestru â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel cyflogwr ac mae'n rhaid i chi sicrhau fod cyfraniadau Treth ac Yswiriant Gwladol yn cael eu cyfrifo i'ch Cymhorthydd Personol. Mae hyn yn eithaf syml pan fyddwch yn defnyddio gwasanaeth Cyflogau.
- Ni ddylech dalu llai na'r isafswm cyflog i'ch cymhorthydd personol. Bydd yn rhaid i chi fod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfradd hon. Gallwn eich cefnogi i gyfrifo cyfraddau talu, felly peidiwch â phoeni.
- Mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r rheoliadau oriau gwaith, hawliau eich cymorthyddion personol i dâl salwch statudol a gwyliau blynyddol. Byddwch yn derbyn gwybodaeth a chymorth mewn perthynas â'r pethau hyn.

Mae'n gyfrifoldeb ar Gyngor Sir y Fflint i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i drefnu a rheoli eich taliadau uniongyrchol. Byddwn yn eich cefnogi ym mhob cam o'r broses i sicrhau eich bod yn cael y canlyniadau gorau posibl o'ch taliadau uniongyrchol.

Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701100

E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk